Joyce Watson MS
Joyce Watson AS

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

# Dyletswydd i gefnogi:

## Adroddiad ymchwil sy'n adolygu cymorth i blant a phobl ifanc sy'n profi trais a cham-drin yng Nghymru.

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
Live Fear Free Helpline
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email

Joyce Watson MS
Joyce Watson AS

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

*Comisinwyd y prosiect ymchwil byr hwn gan Joyce Watson AS gyda'r nod o nodi'r lefel bresennol o ymrwymiadau a buddsoddi strategol ar draws awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu i sicrhau cymorth i blant a phobl ifanc sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol (VAWDASV). Drafftiwyd yr adroddiad hwn gan Cymorth i Ferched Cymru.*

## Rhagair

Yn gyson, mae plant yng Nghymru yn profi trais ac mae angen iddynt gael mynediad at gymorth o ansawdd uchel sydd wedi'i arwain gan anghenion ac wedi'i lywio gan drawma. Nid oes amheuaeth na ddylai darpariaeth o wasanaethau arbenigol i blant a phobl ifanc fod ar gael i bob plentyn sydd ei hangen. Dylid darparu cymorth gan weithwyr proffesiynol medrus sydd â'r profiad i gynnig ystod o gymorth arbenigol i blant a phobl ifanc sy'n adlewyrchu eu sbectrwm amrywiol o anghenion.

Comisiynais yr adroddiad hwn fel cam cyntaf o fewn cwmpas gwaith ehangach i sicrhau y gall plant a phobl ifanc sy'n profi VAWDASV gael diogelwch, cymorth ac adferiad o'u profiad.

Dros y degawd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ymrwymiad i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru drwy ddeddfwriaeth, strategaethau cenedlaethol, a chanllawiau a chymorth i gyrff cyhoeddus gyflawni eu dyletswyddau.

Mae hwn yn ddarn o waith amserol, sy'n cyd-fynd â chyhoeddi Strategaeth Genedlaethol newydd Cymru ar VAWDASV, a datblygu cynlluniau Lles Lleol. Rydym newydd weld etholiadau lleol a chroesawn ein cydweithwyr newydd a pharhaus yn yr ymdrech gydweithredol hon i ddarparu diogelwch a chymorth i bob plentyn a pherson ifanc ledled Cymru.

Nod y adroddiad penodol hwn yw nodi'r lefel bresennol o ymrwymiadau a buddsoddi strategol ar draws awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a Chomisiynwyr Heddlu a

Throseddu i sicrhau cymorth i blant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan drais a cham-drin.

Mae'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

- O'r bobl a gefnogir gan wasanaethau VAWDASV, canran fach ohonynt sy'n blant a phobl ifanc (PPI) – sy'n nodi'r angen am fwy o gyllid penodol ar gyfer gweithwyr PPI.
- Er gwaethaf meysydd o arfer da, mae loteri cod post yn parhau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen cael mynediad at gymorth arbenigol.
- Mae anghysondeb ar draws awdurdodau lleol o ran sut y caiff cyllid ei gategoreiddio ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc. Nid yw rhai yn comisiynu gwasanaethau ar gyfer PPI yn uniongyrchol, darperir y gwasanaethau hyn gan wasanaethau arbenigol cyfredol neu ymyriadau eraill a dargedir at blant a theuluoedd neu drwy wasanaethau mewnol.
- Nid pob awdurdod lleol sydd â Phwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc, nac sy'n medru cyfeirio at y pwyllgor sy'n gyfrifol am y materion hyn.
- Ymddengys fod Canolfannau Comisiynu a Byrddau Comisiynu Rhanbarthol yn cael effaith gadarnhaol ar wella cysondeb y cymorth a ddarperir.

Er bod yr adroddiad hwn yn dangos bod pocedi o arferion comisiynu da ledled Cymru ac awydd cryf gan wasanaethau VAWDASV arbenigol yn ogystal â Llywodraeth Cymru i ddarparu'r cymorth hwn, rydym hefyd yn gweld cyfleoedd i gryfhau'r ddarpariaeth ac i wrando'n wirioneddol ar anghenion plant a phobl ifanc ledled Cymru a darparu ar eu cyfer.

Rwy'n mawr obeithio y bydd Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu yn derbyn gwersi'r adroddiad hwn a'r argymhellion a ddarperir.

Joyce Watson AS

## Cyflwyniad

Amlygodd data a gyhoeddwyd yn adroddiad *Mae Plant yn Bwysig* Cymorth i Ferched Cymru 2019[1] mai dau yn unig o'r strategaethau VAWDASV rhanbarthol yng Nghymru a ddefnyddir i lywio comisiynu'r dyfodol a wnaeth ymrywmiadau pendant i ddatblygu a darparu darpariaeth arbenigol i blant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan VAWDASV. Yn ogystal â hyn, roedd tair strategaeth yn cyfeirio at blant a phobl ifanc yng nghyd-destun codi ymwybyddaieth o berthnasoedd iach mewn ysgolion yn unig, heb unrhyw sylwadau ynghylch sicrhau unrhyw ddarpariaeth o gymorth ac ymyrraeth arbenigol.

Yn rhy aml o lawer, nid oes cyfeiriadau ystyrlon at brofiadau plant a phobl ifanc o drais a cham-drin o fewn strategaethau a chyllido ar gyfer darpariaeth VAWDASV. Mae canfyddiadau drwy'r ymchwil a'r darllen ar gyfer yr adroddiad hwn yn amlygu'r ffaith bod darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc yng Nghymru yn gyfyngedig, tameidiog a hynod amrwyiol a hynny o ganlyniad, i raddau helaeth, gyllid anghynaliadwy, anghyson ac, mewn rhai achosion, ddiffyg cyllid ar gyfer gwasanaethau arbenigol penodol ar gyfer plant a phobl ifanc.[2] Golyga hyn na chaiff plant y cymorth sydd ei angen arnynt i adfer o'u profiadau fel goroeswyr yn eu rhinwedd eu hunain, sy'n arwain at effeithau hirdymor ar eu hiechyd a'u lles drwy gydol eu bywyd.

Mae'r NSPCC wedi canfod bod un o bob pump o blant wedi dod i gysylltiad â cham-drin domestig.[3] Er gwaethaf y ffaith fod Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 Act[4] a'r Ddeddf Cam-drin Domestig 2021[5] yn cydnabod bod plant yn profi cam-drin domestig yn eu rhinwedd eu hunain, canfyddir bod cymorth i blant a phobl ifanc ledled Cymru yn anghyson ac, fel y dangosir mewn penodau diweddarach, fod mapio gwasanaethau wedi dangos yr angen dybryd am well cyllid ac adnoddau i ddiwallu'r angen. Mae pandemig COVID-19 ond wedi dwysáu hyn. Cofnododd yr NSPCC fod galwadau i linellau cymorth wedi cynyddu[6] yn ystod y cyfnodau clo cenedlaethol a nododd gwasanaethau arbenigol fod pwysau cynyddol ar ddarpariaeth sydd eisoes dan bwysau.

Mae adroddiad *Rwy'n ymddiried ynddynt*[7] Cymorth i Ferched Cymru yn cyflwyno canfyddiadau arolwg ar-lein a gynlluniwyd i gyfrannu at sylfaen dystiolaeth o ffynonellau 'gwydnwch' plant a phobl ifanc mewn cymunedau. Canfu'r arolwg fod rhai gwahaniaethau amlwg rhwng y ffynonellau cymorth posibl a nodwyd gan bobl ifanc Dduon a lleiafrifol a'u cymheiriad Gwyn Prydeinig. Yn benodol: roedd ymatebwyr Duon a lleiafrifol bron hanner mor

---

[1] https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/11/Children-and-Young-People-participation-report-FINAL.pdf
[2] https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/11/Children-and-Young-People-participation-report-FINAL.pdf
[3] https://learning.nspcc.org.uk/research-resources/pre-2013/child-abuse-neglect-uk-today
[4] https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/3/contents/enacted
[5] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2021/17/contents/enacted
[6] https://www.nspcc.org.uk/about-us/news-opinion/2021/nspcc-child-abuse-helpline-pandemic/
[7] https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2021/06/I-trust-them-CYP-Resilience-Survey-Report-English-1.pdf

debygol o nodi'r heddlu fel ffynhonnell cymorth o'u cymharu â'u cymheiriad Gwyn Prydeinig (17% a 32%, yn y drefn honno). Daeth patrwm tebyg i'r amlwg mewn perthynas â rhieni, gyda 24% a 46%, yn y drefn honno. Roedd ymatebwyr Duon a lleiafrifol hefyd dair gwaith yn llai tebygol o nodi cyflogwr fel ffynhonnell cymorth (7% a 21%, yn y drefn honno), ac roeddent yn llai tebygol o nodi unrhyw un o fewn y sector addysg fel ffynhonnell cymorth bosibl (66% o'i gymharu ag 86%).

Mae canfyddiadau'r adroddiad *Rwy'n ymddiried ynddynt* yn awgrymu bod diffyg dealltwriaeth o gam-drin, ynghyd â diwylliant o feio dioddefwyr a normaleiddio ymddygiadau rhywiaethol a gwreig-gasaol, yn parhau i fod yn ffactorau cyffredin sy'n effeithio ar debygolrwydd pobl ifanc o geisio cymorth. Mae'n amlwg hefyd nad yw sefydliadau allweddol, yn enwedig yr heddlu ac addysg, yn cael eu hystyried yn fannau hygyrch, dymunol na dibynadwy gan lawer o bobl ifanc i geisio cymorth. Mae hyn yn rhannol oherwydd nifer fawr o brofiadau gwael blaenorol gyda sefydliadau a enwyd a/neu ddiffyg modd o fynychu neu gael mynediad i'r mannau hyn.  Mae hyn yn fwy amlwg i blant a phobl ifanc Duon a lleiafrifol.

Drwy anfon ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth at bob un o'r 22 awdurdod lleol, y saith bwrdd iechyd lleol a'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu  yng Nghymru, ein nod oedd ceisio cael mewnwelediad i'r lefel o fuddsoddiad y mae pob asiantaeth yn ymrwymo iddi tuag at gefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o VAWDASV, gan gynnwys lefelau buddsoddi mewn darpariaeth statudol a hefyd yn y trydydd sector, y sector arbenigol a'r sector 'gan ac ar gyfer' (a gaiff eu rhedeg gan ac ar gyfer y cymunedau a wasanaethant).

Drwy ddadansoddi ymateb Rhyddid Gwybodaeth pob asiantaeth ac ystyried y ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol, nod yr adroddiad hwn fydd rhoi darlun o lefel bresennol y ddarpariaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc yng Nghymru, nodi bylchau a chynnig argymhellion adeiladol i bob asiantaeth yn ogystal ag i Lywodraeth Cymru.

## Cyd-destun

Mae ymgymryd â'r prosiect byr hwn wedi'i osod yng nghyd-destun sawl darn allweddol o ddeddfwriaeth, pob un ohonynt yn cyflwyno dyletswyddau cyfreithiol penodol ar wahanol asiantaethau a amlinellir o fewn yr adroddiad. Mae deall hyn yn hanfodol er mwyn rhoi darlun llawn o'r pwerau a'r cyfrifoldebau sydd gan Gymru i greu rhwydwaith cadarn i gefnogi plant a phobl ifanc. Bydd y bennod hon yn rhoi trosolwg cryno o ddyletswyddau deddfwriaethol yng Nghymru a'r DU ehangach, a bydd yn amlygu unrhyw strategaethau a chanllawiau perthansol.

## Deddfwriaeth

*Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015*

Nod Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yw gwella'r trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; gwella'r trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr cam-drin a thrais o'r fath; gwella'r cymorth

i bobl sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin a thrais o'r fath; ac mae'n ei gwneud yn ofynnol penodi Cynghorydd Cenedlaethol ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Dyletswyddau allweddol:

- Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau lleol i roi sylw (ynghyd ag i'r holl faterion perthnsaol eraill) i'r angen i ddileu neu leihau unrhyw ffactorau sy'n cynyddu'r risg o drais yn erbyn menywod a merched neu sy'n dwysáu effaith trais o'r fath ar ddioddefwyr;
- Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i lunio a chyhoeddi strategaeth leol ar gyfer ardal yr awdurdod lleol ac yna i gymryd camau rhesymol i gyfawni'r amcanion a nodir yn y strategaeth leol.

*Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*

Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella lles pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, ac ar gyfer gweddnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Dyletswyddau allweddol:

- Un o brif egwyddorion y Ddeddf yw **ymyrraeth gynharach** – hyrwyddo'r defnydd o ddulliau ataliol o fewn y gymuned i fynd i'r afael ag anghenion pobl cyn iddynt ddod yn gritigol.
- Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt weithio i hyrwyddo lles y rheini sydd angen gofal a chymorth.
- O dan y Ddeddf, dylai awdurdodau a byrddau iechyd lleol ddod ynghyd mewn partneriaethau statudol newydd i gymell integreiddio, arloesi a newid gwasanaethau.

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a chyda'i gilydd ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Dyletswyddau allweddol:

- O dan y Ddeddf mae gan bob corff cyhoeddus ddyletswydd llesiant
- Rhaid i gyrff cyhoeddus gyhoeddi datganiad wrth bennu eu hamcanion llesiant yn esbonio pam eu bod yn teimlo y bydd yr amcan yn eu helpu i gyflawni'r nodau a sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

*Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011*

Mae hawliau plant wedi'u hymgorffori yng nghyfraith Cymru o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 – gan danlinellu ymrwymiad Cymru i hawliau plant a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

*Deddf Cam-drin Domestig 2021*

Yn Neddf Cam-drin Domestig 2021 enwir plant fel dioddefwyr cam-drin domestig yn eu rhinwedd eu hunain fel y canlynol

> *(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo ymddygiad person ("A") tuag at berson arall ("B") yn gam-drin domestig.*
>
> *(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Ddeddf hon at ddioddefwr cam-drin domestig yn cynnwys cyfeiriad at blentyn –*
>
> > *(a) yn gweld neu'n clywed, neu'n profi effeithiau'r cam-drin, a*
> >
> > *(b) yn gysylltiedig ag A neu B.*

## Canllawiau statudol

*Strategaeth VAWDASV Cymru (Roedd y gwaith o ddiweddaru'r cyhoeddiad yn yr arfaeth ar adeg drafftio'r adroddiad)*

Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – 2016 – 2021 yn cael ei disodli'n fuan gan strategaeth newydd sydd wedi'i diweddaru. Mae'r strategaeth ddiwygiedig bellach wedi cwblhau ei chyfnod ymgynghori ac mae golygiadau terfynol yn cael eu gwneud. Mae ymatebwyr wedi dweud nad yw'r strategaeth ddrafft yn cyflwyno sylwadau digon cryf ar ei hymrwymiad i gefnogi plant a phobl ifanc.

Yn eu hymateb, nododd y Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn Erbyn Menywod a Phlant y canlynol:

> *Mae'n destun pryder nad oes gan rai gwasanaethau VAWDASV arbenigol yng Nghymru unrhyw gyllid penodol o hyd ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc. Mae'r ddarpariaeth yn gyfyngedig iawn o'i chymharu â'r boblogaeth yn ardaloedd cwmpas y gwasanaethau. Mae cyllid tymor byr (yn bennaf gan ymddiriedolaethau a sefydliadau) a lefelau isel o gyllid yn golygu bod gwasanaethau'n ansicr. Caiff hyn effaith ar drosiant staff a pharhad gwasanaethau, sy'n effeithio'n andwyol ar blant a phobl ifanc sydd wedi profi trawma ac sydd angen amser i feithrin perthnasoedd ymddiriedus â gweithwyr proffesiynol. Rydym yn pryderu am lefelau capasiti presennol gwasanaethau arbenigol i ddarparu cymorth digonol, a gwybodaeth cyrff cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion, i alluogi ymyrraeth gynnar a llwybrau atgyfeirio i wasanaethau arbenigol. Mae cymorth arbenigol cyfyngedig ac ymatebion statudol aneffeithiol i ddatgeliadau yn arwain at rai pobl ifanc yn adrodd am effaith sylweddol ar eu gallu i adfer o'r cam-drin.*

Nododd yr ymateb hefyd:

> *Yn aml mae unrhyw adnodd i blant a phobl ifanc yn ddyletswydd ar yr oedolyn sy'n goroesi i gael cymorth, rhaid i'r broses o gomisiynu gwasanaethau gydnabod anghenion dioddefwyr sy'n blant yn eu rhinwedd eu hunain. Er ein bod yn cydnabod bod yr Amcan hwn wedi'i ddiwygio ychydig gyda'r defnydd o'r term 'pawb' yn yr amcan diwygiedig hwn, rydym yn pryderu'n fawr am oblygiadau peidio ag enwi plant a phobl ifanc yn benodol o dan yr amcan hwn. Mae Erthygl 39 Confensiwn y Cenhedlaoedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n rhan annatod o Gyfraith Cymru, yn glir fod gan blant yr hawl i adfer o gam-drin a thrawma. Rhaid i'r amcan hwn fod yn glir fod gan blant yr hawl i gael cymorth ledled Cymru. Ymddengys nad yw comisinwyr lleol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau tuag at ddioddefwyr sy'n blant a, chyda'r mater o gyllid diogel a chynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol heb ei ddatrys, mae dioddefwyr sy'n blant yn debygol o fod ar ddiwedd y ciw.*

Gobeithiwn y caiff y pryderon hyn eu hystyried a'u hadlewyrchu yn nrafft terfynol y strategaeth.

*Canllawiau Statudol ar Gomisiynu Gwasanaethau VAWDASV yng Nghymru*
Nod y canllawiau hyn yw hyrwyddo comisiynu cydweithredol o ansawdd uchel sy'n darparu gwasanaethau mwy cyson ac effeithiol i atal VAWDASV ac amddiffyn a chefnogi dioddefwyr VAWDASV ledled Cymru.

Rydym wedi dewis rhan o'r canllawiau sydd fwyaf perthnasol i gomisiynu gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

> *Dylai'r gwasanaethau a gomisiynir sicrhau bod dioddefwyr a goroeswyr – boed yn oedolion neu blant – yn cael yr amddiffyniad a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mae'r canllawiau'n annog asiantaethau i gydnabod bod atal VAWDASV yn fusnes i bawb ac i weithio ar y cyd i ddarparu fframwaith comisiynu a chyflawni effeithiol a fydd yn sicrhau lles y rheini sydd wedi'u heffeithio gan drais a cham-drin, yn mynnu bod cyflawnwyr yn atebol am eu hymddygiad ac yn cyfrannu at y gwaith o atal VAWDASV mewn cymunedau lleol.*
>
> *Cefnogir y gwahanaieth hwn rhwng gwasanaethau arbenigol a generig gan y Confensiwn ar Atal a Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Cham-drin Domestig (Confensiwn Istanbul) ac mae'n gwahaniaethu rhwng gwasanaethau arbenigol a gwasanaethau generig ar y sail eu bod wedi'u hategu gan ddealltwriaeth o rywedd; eu bod yn seiliedig ar hawliau ac yn canolbwyntio ar ddiogelwch; eu bod yn osgoi erledigaeth ailadroddol; eu bod yn gallu darparu, lle bo'n bosibl, amrywiaeth o wasanaethau ar yr un safle; bod eu dulliau gweithredu'n integredig, gan gydnabod y berthynas rhwng dioddefwyr/goroeswyr, dioddefwyr a'u hamgylchedd; a'u bod yn mynd i'r afael ag anghenion penodol menywod, plant a phobl ifanc sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr (Cyngor Ewrop, 2012).*

Mae egwyddorion comisiynu 2.9 yn cynnwys

- *ymrwymiad i ddarparu mynediad cyfartal i bob goroeswr, gan gynnwys plant a phobl ifanc, i wasanaethau holistaidd ledled Cymru sydd ag adnoddau priodol, sydd o ansawdd uchel, sydd wedi'u harwain gan anghenion, sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n ymateb i rywedd.*
- *ymrwymiad i ymgysylltu â goroeswyr, gan gynnwys plant a phobl ifanc, ac i gael eu llywio ganddynt, i lywio'r gwaith o ddadansoddi anghenion, cynllunio gwasanaethau ac ymatebion system gyfan.*
- *Ymrwymiad i hawliau plant a chydnabod anghenion penodol plant a phobl ifanc sy'n profi neu'n dyst i VAWDASV. Yn yr un modd, cydnabod hawliau plant a phobl ifanc i atal VAWDASV rhag digwydd iddynt neu effeithio arnynt yn y dyfodol.*

*CCUHP*
Ers 2004 mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) fel sail i'w gwaith ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae nifer o strategaethau a fframweithiau eraill sy'n berthnasol i'r maes darpariaeth hwn y dylai partneriaethau comisiynu rhanbarthol eu hysytried:
https://downloads.unicef.org.uk/wpcontent/uploads/2010/05/UNCRC_PRESS200910web.pdf

## Cwestiynau a ofynnwyd

Nod yr adroddiad hwn oedd archwilio'r lefel gyfredol o ymrwymiadau a buddsoddi strategol gan asiantaethau a enwir i sicrhau cymorth i blant a phobl ifanc sy'n profi VAWDASV. Gofynnwyd yr un gyfres o gwestiynau i bob awdurdod. Rydym yn ymwybodol bod gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu wahanol ddyletswyddau statudol, ond bod pob un ohonynt yn gosod lles plant a phobl ifanc yn flaenoriaethau allweddol. Felly roeddem am fesur ar lwyfan gwastad lefel yr ymrwymiad a wneir ar draws asiantaethau waeth beth fo'u dyletswydd statudol, a pha mor agos oedd dyletswydd statudol pob asiantaeth at gael ei chyflawni neu at ragori arni.

Yn y cyfnod yr ysgrifennir yr adroddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i hawlio bod '*Rhoi terfyn ar VAWDSASV a rhoi cymorth i'r rheini sydd ei angen yn fusnes i bawb*'[8] yn y nogfen ymgynghori'r strategaeth genedlaethol ddiwygiedig ar VAWDASV. Os yw hwn yn safiad diffuant yna mae'n hanfodol cael arweinyddiaeth sy'n annog pob asiantaeth i gyfrannu'n gyfartal, a sylweddoli bod darparu cymorth arbenigol o ansawdd i blant yn gwbl hanfodol i roi terfyn ar VAWDASV yn ei gyfanrwydd.

[8] https://gov.wales/consultation-refresh-violence-against-women-domestic-abuse-and-sexual-violence-national-strategy

Yn fras, ein nod oedd canfod y canlynol (mae union eiriad y cwestiwn i'w weld yn atodiad A):

- Pa ddata sydd gan awdurdodau lleol/byrddau iechyd lleol/Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ar nifer/canran y plant y maent yn eu cefnogi sydd wedi'u heffeithio gan VAWDASV? A yw'r data hwn wedi'i ddadgyfuno ar draws nodweddion gwarchodedig?
- Sut mae awdurdodau lleol/byrddau iechyd lleol/Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cysoni eu gwaith o gomisiynu gofal cymdeithasol a chymorth i blant a phobl ifanc â chomisiynu cymorth VAWDASV arbenigol?
- Beth yw'r cyswllt ar draws yr ymatebion â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) a VAWDASV yn y broses o wneud penderfyniadau strategol o fewn fframweithiau comisiynu a phwyllgorau awdurdodau lleol?
- Pryd y bu pwyllgor craffu plant a phobl ifanc yr awdurdod lleol yn craffu ddiwethaf ar y ddarpariaeth o wasanaethau a chymorth i ddioddefwyr VAWDASV sy'n blant? Beth oedd y canfyddiadau?
- Beth sydd wedi'i gynnwys am VAWDASV a'i effaith ar blant a phobl ifanc yn yr asesiadau poblogaeth lleol a'r strategaethau lles?
- A oes cynlluniau wedi'u gwneud neu a oes yna gynlluniau i'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus a'r byrddau partneriaeth rhanbarthol ymgynghori â dioddefwyr VAWDASV sy'n oedolion ac yn blant i lywio asesiadau a strategaethau?

O'r data hwn ein gobaith oedd dysgu'r canlynol:

a) A yw'r asiantaeth yn cadw data perthnasol
b) Pa fath o gymorth sy'n cael ei gomisiynu gan yr asiantaeth
c) Nifer y plant a phobl ifanc a gefnogir gan y gwasanaethau sydd ar gael
d) Sut mae'r asiantaeth yn cysoni ei gwaith o gomisiynu gofal cymdeithasol a chymorth i blant a phobl ifanc â chomisiynu cymorth VAWDASV arbenigol
e) Beth yw'r cyswllt ar draws ymatebion i ACE a VAWDASV o fewn y broses o wneud penderfyniadau strategol
f) A oes gan awdurdodau lleol bwyllgor craffu plant a phobl ifanc a phryd oedd y tro diwethaf i'r pwyllgor gyfarfod
g) Beth sydd wedi'i gynnwys ynghylch VAWDASV a'i effaith ar blant a phobl ifanc yn yr asesiadau poblogaeth lleol a'r strategaethau lles

## A ddarparwyd ymateb mewn pryd ar gyfer rhyddhau'r adroddiad?

Rhoddodd y mwyafrif o'r asiantaethau y cysylltwyd â hwy ymateb i'r cwestiynau Rhyddid Gwybodaeth cyn cwblhau'r adroddiad hwn. Gweler y dadansoddiad llawn isod os gwelwch yn dda. Mae'r rheini nad ydynt wedi'i gwblhau wedi cydnabod y cais ac wedi ymddiheuro am yr oedi.

*Asiantaethau a gwblhaodd ymateb*

- Awdurdodau Lleol: 20/22
- Byrddau Iechyd Prifysgol: 6/7
- Comisiynwyr Heddlu a Throseddu: 4/4

## A yw'r asiantaeth yn cadw data perthnasol?

O'r rheini a ymgysylltodd â'r broses roedd yr ymatebion yn amrywio o ran lefel y manylder a gadwyd y gellid ei darparu. Er bod o leiaf un cwestiwn yn y mwyafrif o achosion lle na ddarparwyd ateb, dywedodd rhai ymatebwyr na allent roi ateb i'r ymholiadau yn eu cyfanrwydd gan naill ai nad oeddent yn cadw'r data neu roeddent yn amcangyfrif y byddai casglu'r data wedi croesi trothwy'r terfyn priodol o adnoddau a ddyrannwyd i ddarparu'r wybodaeth yn y cais. Gwrthododd un ymatebydd hefyd ateb y cwestiynau'n unigol ac yn hytrach darparodd ddogfen yr oeddent yn teimlo ei bod yn ateb yr ymholiad yn ddigonol. Ceir dadansoddiad llawn isod.

*Ymatebwyr a deimlai na allent ddarparu data perthnasol neu na wnaethant ateb y cwestiynau perthnasol*

- Awdurdodau Lleol: 5/17
- Byrddau Iechyd Prifysgol: 2/5
- Comisiynwyr Heddlu a Throseddu: 0/4

## Mathau o gymorth a gomisiynir

Canfuwyd bod y cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc sydd wedi profi cam-drin domestig yn amrywiol iawn yn dibynnu ar ba awdurdod lleol/bwrdd iechyd prifysgol/Comisiynydd Heddlu a Throseddu y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn byw ynddo. Nid yw hyn yn syndod llwyr gan fod Cymorth i Ferched Cymru ynghyd â sefydliadau eraill wedi ymgyrchu am flynyddoedd i roi terfyn ar y loteri cod post o gymorth arbenigol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.[9] Mae cymorth arbenigol cyfyngedig ac ymatebion statudol aneffeithiol i ddatgeliadau yn arwain at rai plant a phobl ifanc yn adrodd am effaith sylweddol ar eu gallu i adfer o'r cam-drin.[10]

Roedd y cymorth a gomisiynwyd yn cynnwys:

- Awdurdodau Lleol:
  - Teuluoedd yn Gyntaf
  - Prosiect DASH
  - Rhaglen STAR
  - DART

[9] https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2022/02/WWA-response-to-WG-VAWDASV-Strat-1.pdf
[10] https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2020/11/WWA-Feministo-for-Party-Manifestos-Design-V2.pdf

  - Gwasanaethau mewnol
  - Comisiynu gwasanaethau VAWDASV arbenigol i ddarparu gweithiwr PPI
  - Nodoodd sawl awdurdod lleol nad ydynt yn comisiynu gwasanaethau VAWDASV yn uniongyrchol ar gyfer plant a phobl ifanc
  - Nododd sawl awdurdod lleol eu bod yn darparu cymorth teuluol ehangach sydd yn eu barn hwy yn cynnwys cymorth PPI
- Byrddau Iechyd Prifysgol:
  - O'r byrddau iechyd a ymatebodd, ni nododd yr un ohonynt iddynt ddyrannu cyllid penodol o fewn gwasanaethau plant bwrdd iechyd prifysgol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o VAWDASV ond roedd cyfeiriad at weithwyr PPI arbenigol Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC)
- Comisiynwyr Heddlu a Throseddu:
  - Mae pob Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn comisiynu, yn cyllido neu'n darparu cytundebau grant ar gyfer rhyw fath o gymorth PPI arbenigol gan gynnwys:
  - Comisiynu gwasanaethau arbenigol i ddarparu gweithwyr PPI
  - Prosiectau ACE arbenigol
  - Gwasanaethau cwnsela

Mae gan y mwyafrif o'r prosiectau hyn gylchred ariannu o un i dair blynedd, sy'n achosi'r problemau a amlinellwyd ar gychwyn yr adroddiad hwn. Er bod y cymorth yn amrywio'n lleol, mae cyfoeth o wybodaeth a phrofiad y gellir eu dysgu a'u cymhwyso mewn ffordd strategol a chyson.

## Nifer y plant a phobl ifanc a gefnogir gan y gwasanaethau sydd ar gael

Fel uchod, mae'r ffordd y mae pob ymatebydd yn cofnodi'r wybodaeth hon, lle caiff y wybodaeth ei chadw a phwy sydd â mynediad at y wybodaeth hon yn amrywio'n fawr, gan ei gwneud yn anodd gweld patrymau a chysondebau.

Yr hyn sy'n nodweddu'r ymatebion yw bod nifer y plant a phobl ifanc sy'n derbyn cymorth VAWDASV arbenigol uniongyrchol yn sylweddol is na'r nifer o oedolion sy'n cael mynediad at gymorth arbenigol uniongyrchol. Gan fod Bil Cam-drin Domestig 2021 yn cydnabod fod plant yn profi cam-drin domestig yn eu rhinwedd eu hunain, dylai gwasanaethau gael eu hehangu i ddiwallu'r angen – rhywbeth nad yw'n cael ei fodloni ar hyn o bryd, fel y gallwn weld o'r cynnydd mewn galwadau i linellau cymorth.

## Sut mae'r asiantaeth yn cysoni ei waith o gomisiynu gofal cymdeithasol a chymorth i blant a phobl ifanc â chomisiynu cymorth VAWDASV arbenigol/ y cyswllt ar draws ymatebion i brofiadau

## niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) a VAWDASV o fewn y broses o wneud penderfyniadau strategol

Yn gyson â'r canfyddiadau blaenorol, cafwyd dehongiad gwahanol gan bob ymatebydd i'r ffordd y mae cwestiynau ynghylch cysoni ag agenda'r gwasanaethau cymdeithasol ac ACE. Mae rhai achosion o arfer da y byddai'n dda eu gweld yn cael eu hailadrodd ar draws yr holl asiantaethau yn cynnwys:

- Awdurdodau Lleol:
  - Byrddau comisiynu ac is-grwpiau lleol
  - Dull Canolfan Gomisiynu
  - Ystyried ACE fel rhan o'r cylchred comisiynu
  - Hyfforddiant gorfodol
  - Gwasanaethau ataliol a statudol sy'n cefnogi diogelu, gan gynnwys ystyried gwasanaethau VAWDASV o fewn cynlluniau corfforaethol a gwasanaethau
  - Asesiadau o anghenion y boblogaeth sy'n rhoi sylw i nifer yr achosion o ACE
- Byrddau Iechyd Prifysgol:
  - Cydweithio â chydweithwyr gofal cymdeithasol
  - Eistedd fel aelod statudol o'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol
  - Eistedd fel aelod o'r Bwrdd VAWDASV Rhanbarthol a'i is-grwpiau sy'n cynnwys grŵp comisiynu
- Comisiynwyr Heddlu a Throseddu
  - Gweithio gydag awdurdodau lleol ac asiantaethau partner eraill i gysoni a, lle bo'n briodol, gyd-gomisiynu gwasanaethau cymorth
  - Cyd-gomisiynu holl wasanaethau cymorth arbenigol VAWDASV, gan gynnwys gwasanaethau i gefnogi plant a phobl ifanc
  - Cysylltu ACE drwy fyrddau gwasanaethau cyhoeddus, byrddau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a gweithio gyda byrddau iechyd lleol, gan integreiddio hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth

## Pwyllgorau Craffu Plant a Phobl Ifanc Awdurdodau Lleol

O'r awdurdodau lleol a ymatebodd, dim ond tri a gadarnhaodd fod ganddynt Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc gweithdredol. Roedd y tri wedi cyfarfod o fewn y chwe mis blaenorol ac wedi trafod mynediad i wasanaethau VAWDASV ar ryw ffurf. O'r awdurdodau lleol a gadarnhaodd nad oes ganddynt y pwyllgor hwn, cadarnhaodd tri arall y pwyllgor neu fwrdd sy'n gyfrifiol am gynnal y trafodaethau hyn a chymryd camau gweithredu ar ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan VAWDASV. Dywedodd gweddill yr awdurdodau lleol a ymatebodd naill ai nad oes ganddynt y pwyllgor hwn neu nad oeddent yn ymwybodol o fodolaeth y pwyllgor hwn.

## Strategaethau lles

Mae'r mwyafrif o ymatebwyr wrthi'n paratoi eu strategaethau lles lleol i'w cyhoeddi naill ai yn 2022 neu 2023. O'r 10 awdurdod lleol lle rhoddir ystyriaeth weithredol i VAWDASV a phlant a phobl ifanc o fewn y broses gynllunio, nododd ymatebwyr y canlynol:

- Mae strategaethau lles yn tueddu dilyn yr amcanion yn Strategaeth VAWDASV, felly byddant yn edrych ar y strategaeth newydd am ganllawiau. Mae'r sylw hwn yn amlygu pwysigrwydd pennu'r amcanion cywir yn y strategaeth genedlaethol newydd.
- Mae Cyngor Ieuenctid un awdrdod lleol wedi pleidleisio dros gam-drin domestig fel eu blaenoriaeth ar gyfer eleni, gan ddymuno ymchwilio i'r pwnc i roi safbwynt pobl ifanc ar y mater.
- Ymatebodd un awdurdod lleol fod *"pennod yn datblygu yn yr Asesiad rhanbarthol o Anghenion y Boblogaeth yn benodol ynghylch plant a phobl ifanc a VAWDASV a fydd yn gymwys ar gyfer yr Asesiad Lles lleol"*
- Ymatebodd un awdurdod lleol arall fod *"Asesiad Llesiant drafft 2022 yn cydnabod ymhellach fod cam-drin domesig yn cwmpasu nid yn unig drais corfforol, ond hefyd gam-drin emosiynol, seicolegol, ariannol neu rywiol o fewn perthynas deuluol neu agos a bod y canlyniadau'n amlwg."*
- Nododd awdurdod lleol arall fod "*y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio ochr yn ochr â rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru i ymgysylltu ag amrywiaeth o breswylwyr a grwpiau lleol a nodwyd yn y canllawiau statudol sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol."*
- Mae strategaeth gyfredol un awdurdod lleol, yn cydnabod bod "*trais domestig yn parhau i fod yn her allweddol i ddiogelwch personol, yn ogystal â chael effaith ar gymunedau, a'i fod yn fater pwysig yng nghyd-destun agenda ACE."*

Fodd bynnag, nododd rhai awdurdodau lleol nad yw eu cynlluniau llesiant cyfredol yn cyfeirio'n benodol at VAWDASV mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Mae nifer o ymatebwyr wedi cyferiro at ddigwyddiadau ymgynghori ac adborth o'r digwyddiadau hyn mewn perthynas â chynlluniau lles sydd ar y gweill – er bod llawer o'r ymgysylltu hwn yn digwydd ar-lein o ganlyniad i'r pandemig.

## Canfyddiadau allweddol ac argymhellion

*Canfyddiadau allweddol*

- O'r bobl a gefnogir gan wasanaethau VAWDASV, canran fach ohonynt sy'n blant a phobl ifanc – sy'n nodi'r angen am fwy o gyllid penodol ar gyfer gweithwyr PPI.
- Er gwaethaf meysydd o arfer da, mae loteri cod post o hyd ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen cael mynediad at gymorth arbenigol.
- Mae anghysondeb ar draws awdurdodau lleol o ran sut y caiff cyllid ei gategoreiddio ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc. Nid yw rhai yn comisiynu gwasanaethau ar gyfer PPI yn uniongyrchol a darperir y gwasanaethau hyn gan wasanaethau

arbenigol cyfredol neu ymyriadau eraill a dargedir at blant a theuluoedd neu drwy wasanaethau mewnol.
- Nid pob awdurdod lleol sydd â Phwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc nac sy’n medru cyfeirio at y pwyllgor sy’n gyfrifol am y materion hyn.
- Ymddengys fod Canolfannau Comisiynu a Byrddau Comisiynu Rhanbarthol yn cael effaith gadarnhaol ar gysondeb y cymorth a ddarperir.

*Argymhellion*

*Cyllido a darpariaeth*

- Cynnal ymchwiliad i gomisiynu a darparu gwasanaethau arbenigol digonol i blant a phobl ifanc sydd wedi’u heffeithio gan VAWDASV ledled Cymru.
- Dylid mynd i’r afael â’r diffyg yn y gwasanaethau a ddarperir i blant a sicrhau cyllid cynaliadwy.
- Dylai pob strategaeth lles a strategaeth rhanbarthol yn y dyfodol ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc a dylid ymgynghori â phlant a phobl ifanc wrth ddatblygu strategaethau, cynllunio gwasanaethau a gwerthuso llwyddiant ymyriadau.

*Ymyrraeth gynnar a hyfforddiant*

- Dylid blaenoriaethu gwaith ymyrraeth gynnar.
- Mae angen hyfforddiant ac addysg ar gyfer staff wrth i gwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd gael ei chyflwyno er mwyn gallu ymateb i ddatgeliadau mewn modd sydd wedi’i lywio gan drawma a’i arwain gan anghenion.
- Pwysigrwydd galluogi pobl ifanc sydd wedi’u heffeithio gan VAWDASV i gael mynediad cynnar at gymorth arbenigol.
- Dylid sicrhau bod cyngor a chymorth priodol ar gael ar-lein i bobl ifanc.
- Manteision galluogi dysgu ac atgyfeirio gan gymheiriaid.
- Rhaid i’r gwaith o ddiogelu mewn ysgolion gael cyswllt uniongyrchol â gwasanaethau arbenigol lleol a llwybrau atgyfeirio clir.

## Ôl-nodyn

Cyhoeddwyd Strategaeth VAWDASV wedi'i Diweddaru (2022-2026) ar 24.05.22, yn dilyn ysgrifennu a chadarnhau cynnwys yr adroddiad hwn.

Mae'r sector ar hyn o bryd yn ystyried y cynnwys a'r ymrwymiadau a wnaed ynddi mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.

## Atodiad 1

Cwestiynau drafft Rhyddid Gwybodaeth:

Yr hyn rydym am ei ganfod:

**Nodi'r lefel bresennol o ymrwymiadau a buddsoddi strategol ar draws awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu i sicrhau bod y cymorth i blant a phobl ifanc sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol (VAWDASV) yn sicrhau eu diogelwch a'u bod yn adfer o'u profiadau.**

I bwy bynnag sydd am wybod,
Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn gallu rhoi atebion i'r cwestiynau canlynol.

1. Faint o gyllid y mae [_____] yn ei ymrwymo tuag at gefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o VAWDASV? Rhowch y wybodaeth ganlynol os gwelwch yn dda, gan ddadgyfuno gwasanaethau statudol o wasanaethau'r trydyd sector:

- Y gyllideb a'r gwariant blynyddol ar gymorth i blant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan VAWDASV am y 3 blynedd ariannol ddiwethaf.
- Enwau'r gwasanaethau a gomisiynwyd yn ystod y 3 blynedd ariannol ddiwethaf a pha gymorth pendodol y maent wedi eu comisiynu i ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan VAWDASV (fel y caiff ei ddiffinio yng Nghanllawiau Comisiynu Statudol Llywodraeth Cymru)
- Hyd y contractau ar gyfer y gwasanaethau a gomisiynwyd uchod.

2. Pa ddata y mae [______] yn ei gadw ar nifer a chanran y plant a effeithiwyd gan VAWDASV sy'n cael eu cefnogi gan y gwasanaethau a gomisiynwyd? Rhowch y data canlynol os gwelwch yn dda, wedi'i ddadgyfuno ar draws nodweddion gwarchodedig fel y cânt eu diffinio gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Os nad yw'n bosibl rhoi'r data wedi'u dadgyfuno, esboniwch pam os gwelwch yn dda a darparwch y data cyfanredol.

- Nifer y plant sydd wedi'u heffeithio gan VAWDASV a gefnogir gan bob gwasanaeth a gomisiynwyd yn ystod pob un o'r 3 blynedd ariannol ddiwethaf.
- Canran y plant sydd wedi'u heffeithio gan VAWDASV a gefnogwyd gan bob un o'r gwasanaethau a gomisinwyd yn ystod pob un o'r tair blynedd ariannol ddiwethaf.

3. Sut mae [_______] yn cysoni eu gwaith o gomisiynu gofal cymdeithasol a chymorth i blant a phobl ifanc â chomisiynu cymorth VAWDASV arbenigol?

4. Sut mae gwneud penderfyniadau strategol ynghylch profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn cysylltu â gwneud penderfyniadau strategol ynghylch VAWDASV o fewn pwyllgorau awdurdodau lleol?

5. Pryd y gwnaeth Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yr awdurdod lleol graffu ddiwethaf ar y ddarpariaeth o wasanaethau a chymorth i blant sy'n dioddef VAWDASV? Beth oedd y canfyddiadau, a sut mae'r canfyddiadau'n cyflawni'r dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus o dan Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015?

6. Beth sydd wedi'i gynnwys am VAWDASV a'i effaith ar blant a phobl ifanc yn yr asesiad lles lleol fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

- Sut y cafodd anghenion plant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan VAWDASV eu cynnwys yn yr asesiad lles lleol uchod?

7. A yw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ymgynghori ag oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr VAWDASV mewn paratoad ar gyfer y cynllun lles lleol? Os na, a oes cynlluniau i wneud hynny?

Diolch ymlaen llaw am eich ymateb.

The costs of this publication have been met by the Senedd Commission using public funds.
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, gan ddefnyddio arian cyhoeddus.

Tŷ Pendragon, Caxton Place | Pentwyn, Caerdydd | CF23 8XE
Tel: 02920 541551
info@welshwomensaid.org.uk | www.welshwomensaid.org.uk

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhif 1140962 a yn gwmni cyfyngedig trwy warant sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr, rhif 07483469

Cymorth i Ferched Cymru
Tŷ Pendragon, Caxton Place,
Pentwyn, Caerdydd, CF23 8XE

02920 541 551
info@welshwomensaid.org.uk

www.welshwomensaid.org.uk

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhif 1140962 a yn gwmni cyfyngedig trwy warant sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr, rhif 07483469.

Dilynwch ni:
@welshwomensaid

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First